Hawdd ei Ddeall

Disability Wales
Anabledd Cymru

# O prin yn goroesi i ffynnu go iawn

## Maniffesto pobl anabl 2026 i 2031



2026 i 2031

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **O prin yn goroesi i ffynnu go iawn: Maniffesto Pobl Anabl 2026-2031**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Anabledd Cymru.** I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.disabilitywales.org/cy

**E-bost:** info@disabilitywales.org

**Ffôn:** 02920 887325

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 4

5 prif beth rydyn ni eisiau eu gweld yn digwydd .......... 6

Beth rydyn ni eisiau .......... 17

# Cyflwyniad


Ni ydy Anabledd Cymru.



Rydyn ni'n dod â Sefydliadau Pobl Anabl yng Nghymru at ei gilydd.



Felly rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed.




Dyma ein **maniffesto**. Maniffesto ydy dogfen sy'n disgrifio ein syniadau, ein nodau a beth rydyn ni'n gredu.



Mae ein maniffesto am beth rydyn ni eisiau i bobl anabl yng Nghymru.



Rydyn ni wedi gwneud hyn wrth siarad â llawer o bobl anabl a sefydliadau.



Maen nhw wedi dweud wrthyn ni am y materion sy’n bwysig iddyn nhw.

# 5 prif beth rydyn ni eisiau eu gweld yn digwydd



**1. Rydyn ni eisiau i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl fod yn rhan o gyfraith Cymru**




Rydyn ni'n galw hyn yn **CCUHPA** yn fyr.



Mae'r **CCUHPA** yn gytundeb rhwng gwledydd ar draws y byd.




Mae'n dweud bod gan bobl anabl yr un hawliau â phawb arall.



Mae'n dweud beth ddylai llywodraethau ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael yr hawliau yma.




Roedd gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i wneud y **CCUHPA** yn rhan o gyfraith Cymru. Ond dydy hyn ddim wedi digwydd.




Rydyn ni eisiau cael **Cod Ymarfer** i helpu gyda hyn.




Mae **Cod Ymarfer** yn set o reolau neu ganllawiau sy'n dweud sut i wneud rhywbeth yn iawn.



Rydyn ni hefyd eisiau hyfforddiant a gwybodaeth. Fel bod nodau'r CCUHPA yn cael eu deall gan wasanaethau cyhoeddus - fel cynghorau a'r GIG.




## 2. Rydyn ni eisiau Cynllun Hawliau Pobl Anabl cryf




Mae'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft allan nawr. Mae drafft yn meddwl ei fod yn dal i gael ei wneud.




Mae'n gynllun 10 mlynedd i Gymru. Mae'n dweud beth ddylid ei wneud i wneud Cymru'n well i bobl anabl.



Rydyn ni'n credu yn y cynllun. Ond rydyn ni'n meddwl ei fod yn gallu bod yn well.



Rhaid i bobl anabl gymryd rhan yn llawn.




Rhaid cael digon o arian a chefnogaeth i wneud yn siŵr bod y cynllun yn gwneud beth mae’n ei ddweud.



Rydyn ni eisiau i bob **plaid wleidyddol** ddilyn a chyflawni’r Cynllun.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg gwlad. Er enghraifft, y Blaid Lafur a’r Blaid Geidwadol.




Rydyn ni eisiau cael ffyrdd clir o edrych ar y Cynllun. Ac adrodd bod y Cynllun yn cael ei weithredu ac yn gweithio.



Rydyn ni eisiau i Sefydliadau Pobl Anabl fod yn bartneriaid yn y Cynllun. Mae’n rhaid iddyn nhw gael arian a ffyrdd clir o fod yn rhan ohono.



## 3. Arweinyddiaeth – Rydyn ni eisiau mwy o gefnogaeth i arweinwyr anabl mewn bywyd cyhoeddus



Rhaid cefnogi pobl anabl i gael pŵer cyfartal a llais cryf.



Fe ddylai pobl anabl fod yn arweinwyr. Fe ddylen nhw fod yn rhan o bleidiau gwleidyddol a swyddi gwneud penderfyniadau eraill.




Does dim digon o gefnogaeth i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.




Rydyn ni eisiau i bleidiau gwleidyddol weithio ar gynnwys pobl anabl. Ac i adrodd ar sut maen nhw'n gwneud.



Rydyn ni eisiau i bleidiau gwleidyddol rannu faint o aelodau anabl sydd ganddyn nhw.




Rydyn ni eisiau iddyn nhw osod targedau ar gyfer cynnwys mwy o bobl anabl.



Rydyn ni eisiau Gweinidog Pobl Anabl yn y Senedd.



Fe fydden nhw'n cynrychioli pobl anabl pan fydd deddfau a phenderfyniadau yn cael eu gwneud dros Gymru.



## 4. Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol. Rydyn ni eisiau newidiadau i ofal, tai ac iechyd




Mae byw'n annibynnol yn hawl ddynol.



Fe ddylai pobl anabl gael y rhyddid a'r rheolaeth i wneud dewisiadau am eu bywydau.



Dydy llawer o bethau ddim wedi'u cynllunio gyda phobl anabl mewn golwg. Er enghraifft, tai.



Fe ddylai pobl anabl gael eu trin yn deg ac yn gyfartal.



Rydyn ni eisiau i'r system gofal cymdeithasol gael ei rhedeg mewn ffordd well. Gyda gwell cyflog ac amodau i weithwyr gofal.



Rydyn ni eisiau tai mwy hygyrch i bobl anabl. Mae hyn yn meddwl tai sy'n cael eu newid neu eu hadeiladu i ateb anghenion pobl.




Rydyn ni eisiau i bobl ddeall hawliau anabl yn well.



## 5. Budd-daliadau Lles sydd yn cael eu rheoli gan Gymru




Mae budd-daliadau lles yn arian gan y llywodraeth i gefnogi pobl sydd ei angen.




Er enghraifft, Taliadau Annibyniaeth Bersonol a Lwfans Byw i'r Anabl.



Mae ein budd-daliadau yn cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU. Rydyn ni eisiau i hyn newid.




Mae budd-daliadau lles yn bwysig iawn i lawer o bobl anabl.



Rhaid i bobl anabl fod yn rhan lawn o'r system fudd-daliadau a sut mae'n gweithio.



Rhaid i gyflogwyr ddeall anghenion a hawliau pobl anabl yn well.




Mae angen newidiadau mawr i bethau fel Mynediad i Waith a Chyflogwyr Hyderus o ran Anabledd.



Mae'r rhain yn rhaglenni sy'n cefnogi pobl anabl mewn gwaith gyda chyflog.



Pe bai Llywodraeth Cymru yn rheoli budd-daliadau lles yng Nghymru, fe fydden nhw'n gallu cynnwys pobl anabl a sefydliadau.



Rydyn ni eisiau i'r system fod wedi ei seilio ar y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ffordd o feddwl am anabledd.



Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.



Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu pethau i ateb anghenion pobl anabl.

# Beth rydyn ni eisiau



Rydyn ni eisiau gweld pobl anabl yn gwneud yn dda mewn bywyd. Dim goroesi yn unig.



Mae'r maniffesto yma yn dangos ein syniadau ar sut rydyn ni'n gallu gwneud Cymru yn wlad lle mae pobl anabl yn byw bywydau llawn ac ystyrlon.



Rydyn ni'n gwybod bod newid yn bosibl. Ond mae'n cymryd llawer o waith.




Rydyn ni'n gofyn i bob plaid wleidyddol ddilyn y syniadau yma a gwneud gwahaniaeth.